Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Help i dalu'ch biliau a'ch rhent yn ystod y Coronafeirws



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cymorth Ariannol Covid-19 i Unigolion**'.

**Ionawr 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.




Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto, bydd mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 28**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.

Mae gwahanol fathau o fanylion cyswllt ar gyfer y gwahanol fathau o help y gallwn ni ei roi i chi. Edrychwch ar bob tudalen i gael y gwahanol fanylion cyswllt.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Contents

**Page**

**Cyflwyniad......................................................................................4**

**Colli Incwm......................................................................................5**

Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru..............................................5

Cefnogaeth gan Lywodraeth y DU.................................................6

**Cefnogaeth ar gyfer eich tŷ.........................................................12**

**Cymorth Ariannol..........................................................................15**

**Cymorth ar gyfer Costau Byw ......................................................16**

**Sut i gael cymorth ar gyfer eich iechyd a'ch llesiant..................19**

**Cefnogaeth i'r Teulu.....................................................................23**

I gael mwy o help ............................................................................25

**Hard words....................................................................................28**

# Cyflwyniad




Cafodd y ganllaw hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**.



Rydyn ni'n deall y gallech chi fod yn cael trafferth i dalu eich biliau a'ch rhent oherwydd y coronafeirws. Efallai eich bod chi hefyd yn cael trafferth â'ch llesiant.



Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a'r pethau maen nhw'n gwneud.



Mae'r ganllaw hon yn ymwneud â'r gwahanol ffyrdd y gallen ni eich helpu chi ag arian.



Mae'r ganllaw hon hefyd yn ymwneud â ffyrdd y gallen ni eich helpu chi â'ch iechyd a'ch llesiant.


# Colli Incwm

## Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru



**Cynllun cefnogaeth wrth gadw o'r neilltu**

Mae **cadw o'r neilltu** yn meddwl aros gartref yn eich tŷ (a'ch gardd os oes gennych chi un). Bydd aros gartref yn helpu i rwystro'r coronafeirws rhag ymledu.



Os yw eich prawf coronafeirws yn gadarnhaol, mae'n rhaid i chi gadw o'r neilltu. Os ydych chi mewn cysylltiad â rhywun sydd â'r coronafeirws, mae'n rhaid i chi gadw o'r neilltu.



Os ydych chi'n cadw o'r neilltu, efallai na fedrwch chi weithio gartref. Gallai hyn feddwl na fyddwch chi'n cael eich talu.



Mae'r cynllun cefnogi tra byddwch chi'n cadw o'r neilltu yn arian y gallen ni ei roi i chi i'ch helpu. Efallai y gallwch chi gael hwn hyd yn oed os nad ydych chi ar fudd-daliadau.




Os oes gennych chi lai o arian oherwydd eich bod chi'n cadw o'r neilltu, cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael help. Neu os ydych chi'n rhiant i blentyn sy'n cadw o'r neilltu.

# Cefnogaeth gan Lywodraeth y DU




**Credyd Cynhwysol**

Mae **Credyd Cynhwysol** yn arian y gallech chi gael i'ch helpu i dalu eich biliau a'ch rhent.




I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar ein **Gwefan**: www.gov.uk/gwneud-cais-am-gredyd-cynhwysol



**Neu gallwch chi gysylltu â:**

**Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol:** 0800 328 5644

**Gall siaradwyr Cymraeg ffonio:** 0800 328 1744

Os oes arnoch chi angen help i wneud cais am **Gredyd Cynhwysol**, gall Cyngor ar Bopeth eich helpu.



I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar ein **Gwefan**: www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Budd-daliadau/credyd-cynhwysol/hawlio-credyd-cynhwysol/gwneud-cais-am-gredyd-cynhwysol1/

**Neu ffoniwch:** 08000 241 220



**Dull Newydd o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth**

Mae hwn yn arian i'ch helpu i dalu eich biliau a'ch rhent. Os ydych chi'n sâl neu'n cadw o'r neilltu efallai y gallwch chi gael yr arian hwn.




Gallwch gael yr arian hwn hyd yn oed os ydych chi'n cael **Credyd Cynhwysol** hefyd.





I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar ein

**Gwefan:** www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy



**Neu gallwch chi ffonio:** 0800 328 5644
(pan fyddwch chi'n clywed y dewisiadau, pwyswch dewis 3)

**Gall siaradwyr Cymraeg ffonio:** 0800 328 1744
(pan fyddwch chi'n clywed y dewisiadau, pwyswch dewis 3)



**Neges testun:** 0800 328 1344

(pan gewch chi ddewisiadau, dewiswch dewis 3)

**Dull Newydd o Lwfans Ceisio Gwaith**

Mae hwn yn arian y gallwch ei gael:




- os ydych chi'n ddi-waith ond yn chwilio am waith neu




- os ydych chi'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos.





Gallwch chi gael yr arian hwn ar ei ben ei hun, neu yn ogystal â chael **Credyd Cynhwysol**.




I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar ein **gwefan**: [https://www.gov.uk/guidance/new-style-jobseekers-allowance.cy](https://www.gov.uk/guidance/new-style-jobseekers-allowance.cy)

**Ffoniwch:** 0800 055 6688



**Gall siaradwyr Cymraeg ffonio:** 0800 012 1888

**Neges testun:** 0800 023 4888




**Taliad Annibyniaeth Personol**

Mae hwn yn arian ar gyfer pobl sydd ag anhwylder tymor hir neu anabledd. Bydd yr arian hwn yn helpu gyda chostau ychwanegol.



I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar ein **gwefan**: [www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip](www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip)

**Neu ffoniwch:** 0800 917 2222




**Tâl Salwch Statudol**

Mae hwn yn arian i helpu os na fedrwch chi weithio oherwydd eich bod chi'n sâl neu'n cadw o'r neilltu.



Nid yw pawb yn gallu cael yr arian hwn. Os na fedrwch chi gael yr arian hwn, efallai y gallwch chi gael **Credyd Cynhwysol** yn ei le.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein **gwefan**: [https://www.gov.uk/tal-salwch-statudol](https://www.gov.uk/tal-salwch-statudol)

**Cynllun Cadw Swyddi**



Cafodd y cynllun cadw swyddi ei greu gan Lywodraeth y DU pan ddigwyddodd y coronafeirws.




Mae Llywodraeth y DU yn talu pobl sy'n methu mynd i'r gwaith oherwydd y coronafeirws.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein **gwefan**: www.gov.uk/guidance/check-if-you-could-be-covered-by-the-coronavirus-job-retention-scheme.cy



Bydd rhai pobl sy'n defnyddio'r **Cynllun Cadw Swyddi** yn cael llai o arian na'u tâl arferol. Os ydych chi'n cael llai o arian nag arfer oherwydd y coronafeirws, efallai y gallwch chi gael **Credyd Cynhwysol**.

## Cynllun Cymorth i'r Hunangyflogedig



Mae'r **Cynllun Cymorth i'r Hunangyflogedig** yn arian i helpu pobl hunangyflogedig.



Mae Llywodraeth y DU yn barod wedi rhoi arian i bobl hunangyflogedig.




Efallai bydd y bobl oedd yn cael yr arian hwn o'r blaen yn cael mwy yn y dyfodol. Efallai y bydd ymgeiswyr newydd yn medru ei gael hefyd, os nad oedden nhw wedi methu ei gael o'r blaen.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein **gwefan**:
[https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme.cy](https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme.cy)

# Cefnogaeth ar gyfer eich tŷ



Oherwydd y coronafeirws, efallai y bydd gennych chi lai o arian.



Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu eich rhent a'ch biliau, dylech chi siarad â'ch landlord. Efallai bydd eich landlord yn gallu eich helpu.

**Mae help arall y gallwch chi gael hefyd:**



**Cynllun Rhybudd Cynnar**

Mae'r **Cynllun Rhybudd Cynnar** ar gyfer pobl sy'n rhentu'n breifat. Mae'n cael ei redeg gan **Gyngor ar Bopeth Cymru**. Gallan nhw roi cyngor ar:

- rent
- incwm
- budd-daliadau
- cyllidebu



Os ydych chi'n poeni am dalu eich rhent neu'ch biliau, gallwch chi ffonio:

**Llinell Gymorth Dyledion y Sector Rhentu Preifat**

**Rhadffôn:** 0808 278 7920




**Benthyciad Arbed Tenantiaeth**

Mae **Benthyciad Arbed Tenantiaeth** ar gyfer rhentwyr preifat.



Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu rhent oherwydd y coronafeirws, gallai'r benthyciad hwn eich helpu chi.




Mae'r benthyciad yn cael ei dalu'n syth i'ch landlord o'r **Credyd Cynhwysol**. Yna rydych chi'n talu'r benthyciad yn ôl i'r **Undeb Credyd** dros gyfnod o amser gafodd ei gytuno.




I gael mwy o wybodaeth, llenwch ffurflen ymholi ar y **wefan**:
https://creditunionsofwales.co.uk/cy/tsl/

## Taliad Disgresiwn at Gostau Tai



Mae **taliad disgresiwn** yn gronfa arbennig i gynnig cefnogaeth ychwanegol i'r rhai sydd ar incwm isel yn ystod argyfwng.



Mae hwn yn arian i helpu pobl yn y sector cymdeithasol **a'r** sector preifat i dalu rhent.



Dim ond ar gyfer pobl sy'n cael **budd-dal tai** yn barod y mae hwn.




Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i weld a allwch chi gael y taliad hwn.

# Cymorth Ariannol




**Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru**

Mae cymorth ariannol yn meddwl cael help ag arian.



Oherwydd y coronafeirws, efallai bod gennych chi lawer llai o arian. Efallai bod arnoch chi angen arian yn gyflym ar gyfer argyfwng.



Os oes arnoch chi angen arian yn gyflym, gallen ni roi **Taliad Cymorth mewn Argyfwng** i chi.



I wneud cais am yr arian hwn, ewch i'r **gwefan**: https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/sut-i-wneud-cais

**Neu ffoniwch y rhadffôn:** 0800 859 5924

**Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**




Gallai **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** eich cefnogi i'ch helpu chi i dalu eich bil treth y cyngor.

I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein **gwefan**: https://llyw.cymru/disgownt-gostyngiad-treth-gyngor-taflen-wybodaeth

# Cymorth ar gyfer Costau Byw




**Biliau Dŵr**

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich bil dŵr, dylech chi siarad â'r cwmni dŵr.

Os **Dŵr Cymru** yw eich cwmni dŵr, mae ganddyn nhw lawer o ffyrdd i'ch helpu chi.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar **wefan**: [https://www.dwrcymru.com/cy-gb/my-household/get-help-paying-your-bill](https://www.dwrcymru.com/cy-gb/my-household/get-help-paying-your-bill)

**Nwy a thrydan**



Oherwydd y coronafeirws, efallai eich bod chi'n cael trafferth talu eich biliau.



Mae cyflenwyr nwy a thrydan yn deall bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu eich biliau, gofynnwch i'ch cyflenwr am gymorth.



## Band eang a ffonau symudol

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich bil band eang neu ffôn symudol, dywedwch wrth eich cyflenwr. Efallai y byddan nhw'n gallu helpu.



## Banciau, cardiau credyd a benthyciadau

Efallai eich bod chi'n cael trafferth talu eich banc, cerdyn credyd neu fenthyciadau.



Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu eich biliau, cysylltwch â'r bobl y mae arnoch chi arian iddyn nhw. Efallai y byddan nhw'n gallu helpu.

## Prydau ysgol am ddim



Bydd unrhyw blentyn sydd fel arfer yn cael prydau ysgol am ddim yn dal i gael prydau ysgol am ddim hyd yn oed os yw'r ysgol ar gau, neu mae'r plentyn yn cadw o'r neilltu oherwydd y coronafeirws.



Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu prydau ysgol am ddim.




Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i weld sut y byddan nhw'n gwneud hyn. I ddod o hyd i fanylion cyswllt eich awdurdod lleol, ewch i **wefan** y Llywodraeth: www.gov.uk/find-local-council



**Grant Datblygu Dysgyblion – Mynediad**

Mae hwn yn arian sy'n helpu i dalu am bethau fel gwisg ysgol.



Gall teuluoedd y mae eu plant yn cael prydau ysgol am ddim wneud cais am yr arian hwn. Ond mae'n dibynnu pa flwyddyn ysgol y mae'r plant ynddi.



Ar gyfer **plant sy'n derbyn** gofal, does dim gwahaniaeth pa flwyddyn ysgol y mae'r plant ynddi. Gall y plant gael yr arian hwn beth bynnag.



Mae **plant sy'n derbyn** gofal yn blant sydd ddim yn gallu byw gyda'u teuluoedd. Maen nhw'n derbyn gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol un ai gyda theuluoedd maeth neu mewn cartref plant.




I weld a allwch chi gael yr arian hwn, edrychwch ar ein **gwefan:** https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

# Sut i gael cymorth ar gyfer eich iechyd a'ch llesiant



Mae rhai pobl wedi dioddef gan iechyd a llesiant gwael oherwydd y coronafeirws.




Mae arnon ni eisiau eich helpu chi. Rydyn ni wedi creu gwefan sy'n rhoi cyngor i chi ynghylch sut i gadw'n iawn ac yn iach.




I gael mwy o wybodaeth ewch i'n **gwefan**: [https://llyw.cymru/iach-a-diogel](https://llyw.cymru/iach-a-diogel)



**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**

Mae Byw Heb Ofn yn helpu pobl sy'n dioddef gan **gam-drin teuluol**.



Mae **cam-drin teuluol** yn unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n cael ei wneud gan bartner, a chyn-bartner neu aelod o'r teulu. Mae'n gallu digwydd i unrhyw un.




Gallwch chi gysylltu â nhw mewn pedair ffordd:

**Ffôn:** 0808 80 10 800

**Neges testun:** 07860 077333

**E-bost:** info@livefearfreehelpline.wales

**Sgwrsio byw:** https://llyw.cymru/byw-heb-ofn



**Llinell Gymorth Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol (C.A.L.L.)**

Gall Llinell Gymorth C.A.L.L. eich helpu i siarad am y pethau sy'n eich poeni a'ch problemau a rhoi cefnogaeth i chi ynglŷn â'ch iechyd meddwl.




I siarad â rhywun, cysylltwch:

**Dros y ffôn:** 0800 132 737

**Neu trwy neges testun:**Text **Help** to 81066

I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: www.callhelpline.org.uk/DefaultW.asp?

**Llinell Gymorth Cenedlaethol Camddefnyddio Sylweddau**



Os oes gennych chi broblemau â chyffuriau neu alcohol, gallwch gysylltu â:

**Gwefan:** www.dan247.org.uk/Default_Wales.asp

**Rhadffôn:** 0808 808 2234

**Neges testun:** Text DAN to 81066

## Cam-drin teuluol

Os ydych chi'n dioddef gan gam-drin teuluol, gallwch gael help gan **Gyngor ar Bopeth**.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar **wefan**: [www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Teulu/gender-violence/domestic-violence-and-abuse-getting-help](www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Teulu/gender-violence/domestic-violence-and-abuse-getting-help)

## Dewis Cymru

Mae gan Dewis Cymru lawer o wybodaeth ar-lein i'ch helpu â'ch iechyd a'ch llesiant.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: [www.dewis.cymru/](www.dewis.cymru/)




**Cychwyn Iach**

Mae Cychwyn Iach yn helpu pobl trwy roi bwyd, llefrith a fitaminau am ddim iddyn nhw.

Gallwch gael yr help hwn os ydych chi ar fudd-daliadau ac:



- rydych chi'n disgwyl plentyn neu



- mae gennych chi blentyn dan bedair oed



Os ydych chi'n disgwyl plentyn ac rydych dan 18 oed, gallwch gael yr help hwn hefyd.



I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** [www.healthystart.nhs.uk](http://www.healthystart.nhs.uk)

**Ffôn:** 0345 607 6823

# Cefnogaeth i'r Teulu



**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**

Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ddweud wrthych chi am help a gweithgareddau ar gyfer teuluoedd.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: https://llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd-lleol

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Os oes gennych chi neu rywun yn eich teulu anghenion dysgu ychwanegol, gall **SNAP Cymru** eich helpu.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein **gwefan**: www.snapcymru.org/?lang=cy



**Rhieni**

Os ydych chi'n rhiant ac yn ei chael hi'n anodd bod yn rhiant, gallwch gael cyngor.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein **gwefan:** https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo

**Tîm Cymorth Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig**



Mae **lleiafrifoedd ethnig** yn hil arbennig o bobl. Mae llai ohonyn nhw nag o bobl eraill. Er enghraifft, mae Indiaid yn bobl lleiafrifoedd ethnig.

Mae **tîm cymorth ieuenctid lleiafrifoedd ethnig** yn helpu:

- pobl dduon
- lleiafrifoedd ethnig
- ffoaduriaid
- ceiswyr lloches




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: [www.eyst.org.uk](http://www.eyst.org.uk)

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru**

CARERS TRUST WALES

Mae **Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru** yn helpu pobl sy'n gofalu am bobl eraill ond sydd ddim yn cael eu talu am wneud hynny.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: [www.carers.org](http://www.carers.org)

# I gael mwy o help

## Cyngor ar Bopeth Cymru

**Gall Cyngor ar Bopeth Cymru** roi cyngor i chi ar bethau fel arian, dyledion neu fudd-daliadau.



I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/Cysylltu-a-ni/

**Neu ffoniwch:** 0800 702 2020. Gallwch chi ffonio rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Cynghorau Gwirfoddol Sirol



Os ydych chi'n cadw o'r neilltu, gofynnwch i'ch ffrindiau neu eich cymdogion am help i gael y pethau sydd eu hangen arnoch.



Gall y **Cynghorau Gwirfoddol Sirol** eich helpu os nad oes gennych chi unrhyw un i'ch helpu.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: https://thirdsectorsupport.wales/cy/

## Cyngor Age Cymru

Gall **Cyngor Age Cymru** roi gwybodaeth a chyngor i bobl sydd dros 50 oed.



I gael mwy o wybodaeth cysylltwch trwy:

**E-bost:** advice@agecymru.org.uk

**Ffôn:** 08000 223 444

## Gofal a Thrwsio

Mae **Gofal a Thrwsio** yn helpu pobl hŷn â:

- gwybodaeth
- cyngor
- help o amgylch y tŷ
- help i gael budd-daliadau.





I gael mwy o wybodaeth cysylltwch trwy'r:

**Wefan:** www.careandrepair.org.uk/cy/

**Ffôn:** 0300 111 3333



**Gwasanaeth Cyngor Iechyd Meddwl ac Arian**

Mae’r gwasanaeth hwn yn helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau arian.




I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y **wefan**: www.hafal.org/cy/adferiad/cyllid-ac-arian/

# Geiriau Anodd

## Cadw o'r neilltu

Mae cadw o'r neilltu yn meddwl aros gartref yn eich tŷ (a'ch gardd os oes gennych chi un). Bydd aros gartref yn helpu i rwystro'r coronafeirws rhag ymledu.

## Cam-drin teuluol

Mae cam-drin teuluol yn unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n cael ei wneud gan bartner, a chyn-bartner neu aelod o'r teulu. Mae'n gallu digwydd i unrhyw un.

## Lleiafrifoedd Ethnig

Mae lleiafrifoedd ethnig yn hil arbennig o bobl. Mae llai ohonyn nhw nag o bobl eraill. Er enghraifft, mae Indiaid yn bobl lleiafrifoedd ethnig.

## Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a'r pethau maen nhw'n gwneud.

## Plant sy'n derbyn gofal

Mae plant sy'n derbyn gofal yn blant sydd ddim yn gallu byw â'u teuluoedd. Maen nhw'n derbyn gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol un ai gyda theuluoedd maeth neu mewn cartref plant.